# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5001

## 154

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Dechreuodd yr eitem am 14.25

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.11

Gofynwyd y ddau gwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.18

**[Atebwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig]**

**Lee Waters (Llanelli)** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o benderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i gymhwyso cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y drydedd flwyddyn yn olynol?

**[Atebwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg]**

**Lynne Neagle (Torfaen)** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.38

Gwnaeth **Andrew RT Davies** ddatganiad yn canmol y cyfraniad y mae meddygon Indiaidd yn ei wneud i'r GIG yng Nghymru

Gwnaeth **Suzy Davies** ddatganiad am ymgyrch Keep me posted (sy'n sicrhau bod busnesau a chynghorau'n parhau i anfon biliau papur at gwsmeriaid os mai dyna'u dymuniad)

Gwnaeth **Simon Thomas** ddatganiad am ddathlu 140 mlynedd ers sefydlu Amgueddfa Dinbych-y-pysgod (amgueddfa annibynnol hynaf Cymru)

Gwnaeth **Jayne Bryant** ddatganiad am ddadorchuddio plac yn Ysbyty Sant Gwynllyw yn gynharach y mis hwn i goffáu rhan yr ysbyty yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

## 6 Datganiad gan Paul Davies: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod - Bil Awtistiaeth (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.44

## 7 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ymadawiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.32

## 8 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 02-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Dechreuodd yr eitem am 17.07

**NDM6773** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 02-18 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Gorffennaf 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad bod achos o dorri amodau wedi ei ganfod a phenderfynu y dylai'r Aelod, o dan Reol Sefydlog 22.10 (iii) gael ei geryddu a'i wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod o 14 diwrnod calendr, gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf tymor y Cynulliad ar ôl toriad yr haf (17 Medi 2018).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017 - 18

Dechreuodd yr eitem am 17.10

**NDM6774** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8(8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11 Gorffennaf 2018

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

Dechreuodd yr eitem am 17.36

**NDM6771** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2018.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Cyfnod pleidleisio

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio

## 12 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.19

**NDM6772** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Gweithredu terfynau cyflymder diofyn o 20 mya mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.42

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Medi 2018**